



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

**Y Prawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Gymraeg
14 Mawrth 2019
Yr Adroddiad Cyffredinol**

YR YMGEISWYR

Un ymgeisydd a gafwyd yn y rownd hon, ac yng Nghaerdydd y safwyd y Prawf CAP i'r Gymraeg.

Y DARNAU PRAWF

Darn 1:

Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan yn derbyn tystiolaeth yn rhan o'i ymchwiliad i ddarpariaeth y carchardai yng Nghymru.

Un tyst oedd dan sylw yma, ond rhoddwyd manylion i'r ymgeiswyr parthed tystion blaenorol oedd wedi ymddangos gerbron yr un Pwyllgor, gan nodi eu henwau a'u sefydliadau lle roedd hynny'n briodol.

Darparwyd gwybodaeth gefndir parthed y meysydd a'r carchardai a fyddai'n cael eu trafod ynghyd â'r pwyntiau gweithredu.

Am fod yma enghraifft o sefyllfa go iawn, teimlwyd ei bod yn briodol fel darn prawf ac yn adlewyrchu'r math o drafod a geir (gan gynnwys pobl yn siarad ar draws ei gilydd bob hyn a hyn), cyflymder, cynnwys a llif naturiol sgwrs ymhlith nifer o bobl dan arweiniad Cadeirydd.

Darn 2:

Darn mwy anffurfiol ei natur oedd hwn ar ffurf araith gan siaradwr cyhoeddus o'r enw Conor Neill. Y pwnc dan sylw oedd technegau traddodi areithiau a sut i wneud hynny mewn modd sy'n denu a chynnal diddordeb y gynulleidfa.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r ymgeiswyr mewn perthynas â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ran cynnwys a natur y sgwrs, a darparwyd ambell ymadrodd a allai eu baglu fel arall ('Érase una vez' ('once upon a time' / 'un tro' yn Sbaeneg) er enghraifft). Roedd cyflymder y sgwrs yn llawer mwy pwylllog a'r bwriad oedd gwneud i'r cyfieithydd deimlo'n gyfforddus a dilyn y llif yn naturiol.

Unwaith eto, roedd y darn yn adlewyrchu sefyllfa go iawn ac yn wir, gwelwyd bod cyfieithydd ar y pryd yn cyfieithu mewn bwth yng nghornel yr ystafell. Am hynny, teimlwyd y byddai'n ddarn prawf digon priodol.

Y SAFON

Roedd yr aseswyr yn gytûn eu barn bod safon yr ymgeisydd yn uchel a'i bod yn bleser gwranddo arno'n cyfieithu. Ar wahân i ychydig betruso ar ddechrau'r darn cyntaf, daeth llif y cyfieithiad yn gyflym ac roedd yn gallu cadw i fyny'n dda gyda chyflymder y siaradwyr.

Roedd perfformiad yr ymgeisydd yn gadarnach yn yr ail ddarn na'r cyntaf ond roedd hyn o bosibl yn adlewyrchiad o'r sefyllfaoedd gwahanol.

Rydym yn sylweddoli mai rhywbeth y gofynnir amdano'n weddol anaml yw cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg, ond er gwaetha'r diffyg profiad, cais diogel iawn a gafwyd yma.

Geirfa

Roedd yn amlwg bod gan yr ymgeisydd afael arbennig ar y Gymraeg, a'i fod yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cyfleu'r gwreiddiol mor agos a chywir ag y gallai. Roedd yr eirfa ar flaen ei fysedd a thrwy hyn llwyddodd i gyfleu hyder ac elfen o reolaeth dros y sefyllfa.

Mae ambell bwynt i'w nodi lle gellid bod wedi defnyddio gair/term gwell:

'custody' - 'carchar'

'before they came into the system' – 'cyn mynd i'r carchar'

Deall, dehongli a chywirdeb

Ymdopwyd yn dda iawn gyda'r termau technegol ac roedd yn amlwg bod y cyfieithydd yn deall ac yn gallu dilyn yr hyn roedd y siaradwyr yn ei ddweud. Collwyd ambell beth ond ar y cyfan nid oedd hyn mewn gwirionedd yn amharu rhyw lawer ar ddealltwriaeth y gwrandawr.

Mae angen nodi (yn yr ail ddarn) bod y gair anghywir wedi'i ddefnyddio ar gyfer y cyd-destun penodol dan sylw. Defnyddiwyd 'egni' am 'energy'. 'Ynni' oedd y gair priodol yn y cyd-destun hwn ond ni ddefnyddiwyd 'ynni' ar wahân i'r enghraifft gyntaf pan ymddangosodd y gair i ddechrau. Aeth yr ymgeisydd ymlaen â'i gyfieithu gan ddefnyddio 'egni' er mai 'ynni' oedd y gair cywir.

Cystrawennu ac idiomau

Defnyddiwyd gramadeg a chystrawen raenus yn y ddau ddarn (e.e. 'tri phrif beth', 'tair ffordd'), gan fynegi'r testun yn glir a defnyddio ymadroddion naturiol (e.e. 'ennyn diddordeb' ('engage'), 'y ffordd orau ond un', 'ffaith fach', 'edrych yn addas' ('I look the part'), 'syfrdanu'r gynulleidfa' ('shocks the audience').

Roedd cystrawen yr ymgeisydd yn raenus a mynegwyd y testun yn glir gan ddefnyddio ymadroddiad naturiol fel 'drwyddi draw', 'taclus', a 'dros ben llestri', 'pryderu'n arw', 'ddim yn gyfrifoldeb unigol i fi'.

Defnyddiwyd pwyslais priodol i gyd-fynd â bwriad y siaradwr.

Arddull a Stamina

O ran arddull a thôn, gwelwyd ymdrech i wahaniaethu rhwng y siaradwyr hyd yn oed pan oedd sawl un yn siarad ar draws ei gilydd. Amrywiwyd tôn y llais yn briodol.

Llwyddwyd i gyfleu ysgafnder a doniolwch y siaradwr yn dda - bron iawn yn actio'r darn. Roedd yr ail ddarn lawer yn arafach na'r darn cyntaf ond roedd yn cyd-fynd yn addas â'r siaradwr.

Ar ddiwedd yr ail ddarn, daeth yr ymgeisydd i ddiwedd ei frawddeg heb gynnwys rhan olaf cyfraniad y siaradwr. Mae'n bosibl mai colli stamina oedd hyn neu ymgais i orffen siarad yn fuan ar ôl y siaradwr.

Y CANLYNIAD

Mae'r ymgeisydd wedi llwyddo yn y Prawf CAP hwn.

GAIR O DDIOLCH

Estynnir diolchiadau i'r aseswyr ac i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am ofalu bod y trefniadau'n mynd rhagddynt yn ddidrafferth